# CWESTIWN O DRETHU?

Mae polisïau prisio wedi cael effaith ar nifer y cynhyrchion afiach sy'n cael eu prynu, eu bwyta a'u hyfed ledled y byd.

## YN HWNGARI



FE WNAETH SIOPWYR LEIHAU'R CYNHYRCHION WEDI'U TRETHU Y MAENT YN EU BWYTA A'U HYFED A GWELWYD Y NEWID MWYAF YMHLITH OEDOLION A OEDD DROS EU PWYSAU NEU'N ORDEW


FE WNAETH Y DIWYDIANT BWYD HEPGOR CYNHWYSION AFIACH O GYNHYRCHION BWYD WEDI'U TRETHU





FE WNAETH DEFNYDDWYR GYFNEWID CYNHYRCHION WEDI'U TRETHU AM OPSIYNAU IACH. MEWN **82-86%** O ACHOSION, ROEDD POBL YN BWYTA MWY O FFRWYTHAU A LLYSIAU FFRES

## YM MLWYDDYN GYNTAF Y DRETH YM MECSICO



GWELWYD GOSTYNGIAD O **25g** YN NIFER Y BWYDYDD WEDI'U TRETHU A BRYNWYD



PRYNODD AELWYDYDD TLOTACH **10.2%** YN LLAI O FWYDYDD WEDI'U TRETHU NA'R DISGWYL; PRYNODD Y RHAI AG INCWM CANOLIG **5.8%** YN LLAI

GWELWYD Y GOSTYNGIAD MWYAF YN Y BYRBRYDAU HALLT A BRYNWYD (**-6.3%** Y TU HWNT I'R GOSTYNGIAD DISGWYLIEDIG)



## AR ÔL DWY FLYNEDD:

GOSTYNGODD SWM Y BWYD WEDI'I DRETHU A BRYNWYD, O **1798g** Y PEN Y MIS I **1607g**




GWELWYD Y GOSTYNGIAD MWYAF YN Y BWYD WEDI'I DRETHU A BRYNWYD YMYSG Y GRŴP A OEDD YN ARFER PRYNU'R LEFELAU UCHAF O GYNHYRCHION AFIACH (GOSTYNGIAD O **12.3%**)




# MAE ANGEN I DRETHIANT FOD YN RHAN O YSTOD O YMYRIADAU GAN GYNNWYS:



SICRHAU BOD OPSIYNAU IACH AR GAEL YN EANG

DEFNYDDIO CYNHWYSION IACHACH MEWN CYNHYRCHION BWYD/LLEIHAU CYNHWYSION AFIACH






LABELU CYNHYRCHION YN GLIR, GAN ESBONIO'R NIWED/MANTEISION I IECHYD




GOSOD CYFYNGIADAU AR HYSBYSEBU CYNHYRCHION AFIACH

HYSBYSU AC ADDYSGU'R CYHOEDD AM FWYD A MAETH



# GELLIR SICRHAU'R LLWYDDIANT MWYAF POSIBL DRWY DRETHU CYNHYRCHION AFIACH A DEFNYDDIO'R ELW I OSTWNG PRISIAU OPSIYNAU IACHACH




MAE DROS 8 O BOB 10 **(82%)** O BOBLOGAETH CYMRU A HOLWYD MEWN AROLWG YN CYTUNO Y DYLAI BWYDYDD IACH GOSTIO YCHYDIG YN LLAI AC Y DYLAI BWYDYDD AFIACH GOSTIO YCHYDIG YN FWY – DIM OND **6%** SY'N ANGHYTUNO

# CWESTIWN O DRETHU?
# PUM YSTYRIAETH POLISI




## Beth ddylai llunwyr polisïau ei ystyried cyn bwrw ymlaen â threth sydd wedi'i hanelu at wella iechyd?

### 1 A YW LLUNWYR POLISÏAU YN YSTYRIED TRETHU CYNHYRCHION PENODOL YNTEU GRŴP O GYNHYRCHION?

Mae'r canlyniadau'n dibynnu ar sut y gweithredir y dreth. Y perygl gyda threthi penodol iawn am fath o gynnyrch/swm cynnyrch yw y bydd yn cynyddu'r baich gweinyddol ac yn arwain at gyfleu negeseuon cymhleth i ddefnyddwyr

### 2 MAE ANGEN I'R GRŴP CYNGHORI FOD YN AMLDDISGYBLAETHOL, A CHYNNWYS ECONOMEGWYR A'R RHAI SY'N GWEITHIO YN Y MEYSYDD IECHYD CYHOEDDUS A PHOLISI CYHOEDDUS.

Gall cael yr arbenigedd cywir ar y dechrau helpu gyda llunio polisi, ei weithredu, nodi canlyniadau anfwriadol, a gwaith monitro parhaus – sydd oll yn lleihau'r risg y bydd y polisi'n fethiant.

### 3 A YDYM YN GWYBOD BETH YW'R DATA SYLFAENOL AR GYFER BWYTA/YFED/DEFNYDDIO CYNHYRCHION? OS NAD YDYM, A ALLWN GASGLU'R RHAIN?

Mae angen gwybodaeth sylfaenol ar gyfer gwerthusiad dilys a chadarn o effeithiau'r dreth arfaethedig.

### 4 A FYDD NEWIDIADAU MEWN PRISIAU YN ARWAIN AT FASNACH DRAWSFFINIOL MEWN CYNHYRCHION WEDI'U TRETHU?

Gwelwyd bod trigolion mewn gwledydd sydd â threth sy'n gysylltiedig ag iechyd yn prynu'r cynhyrchion sydd wedi'u trethu mewn gwledydd cyfagos – a fydd hyn yn risg yn eich gwlad chi?

### 5 A OES RISG O GYFNEWID CYNNYRCH AM GYNNYRCH ARALL SYDD YR UN MOR AFIACH?

Mewn rhai enghreifftiau rhyngwladol o drethi sy'n gysylltiedig â deiet hyd yma, mae defnyddwyr wedi cyfnewid cynhyrchion am opsiynau bwyd iachach yn bennaf – ond nid yw hyn yn wir bob tro. Dylai llunwyr polisïau ystyried pob posibilrwydd cyn gweithredu treth sydd wedi'i hanelu at wella iechyd.

Mae'r ffeithlun hwn wedi cael ei gynhyrchu ochr yn ochr ag adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Cwestiwn o Drethu?' I gael rhagor o wybodaeth, a rhestr o'r holl ffynonellau, lawrlwythwch yr adroddiad o **www.publichealthwales.org**

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales